

Maethiad Cyn Wyna – Beichiogrwydd Hwyr

Yn ystod 6 wythnos olaf y beichiogrwydd, mae 75% o dyfiant y ffetws yn digwydd a thra bod hyn yn digwydd mae'r famog yn paratoi at greu colostrwm sy'n golygu bod galw mawr am egni'r famog. Dyma pam ei bod hi'n hanfodol sicrhau bod y famog yn derbyn maeth addas cyn wyna.

Bydd darparu'r maeth addas yn ystod beichiogrwydd hwys yn:

- Darparu cronfeydd wrth gefn ar gyfer llaetha
- Darparu cronfeydd wrth gefn ar gyfer insiwleiddio
- Lleihau nifer yr anawsterau wyna

Beichiogrwydd Hwyr


Dylai unrhyw newid i reolaeth bwydo yn ystod beichiogrwydd hwyr (6-8 wythnos olaf beichiogrwydd) fod yn seiliedig ar sganio beichiogrwydd yn 80 diwrnod a sgôr cyflwr corff 8 wythnos cyn wyna.

Yn ystod 6-8 wythnos olaf beichiogrwydd, ar yr amod bod y famog mewn cyflwr da yn ystod hyrdda, mae'n hanfodol nad yw'r famog yn colli gormod o gyflwr. Gall cwmp sy'n fwy na 0.5 sgôr cyflwr corff (BCS) fod yn niweidiol ar dyfiant y ffetws. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r famog yn addasu i gyfyngiad rwmwr trwy gynyddu'r gyfradd pasio bwyd a chynyddu amsugno protein o 15%.

Tabl 1. Targed BCS ar gyfer mamogiaid yn ystod wyna

Brîd	Wyna
Mamog fynydd (50kg)	2.5
Iseldir (70 kg)	3 – 3.5

Oherwydd galw uchel am faeth yn ystod y cyfnod hon o feichiogrwydd, dylid cynnig y porthiant o'r ansawsdd gorau er mwyn cynyddu cymeriant i'r eithaf a lleihau'r angen am ychwanegiad dwysfwyd. Os ydych yn bwyd dwysfwyd, mae'n hanfodol cael cynnwys uchel mewn egni (**o leiaf 12.5 MJ MR/kg DM**) gan bod y famog yn bwyta llai. Mae mamogiaid sy'n cael eu tan-fwydo yn hwyr yn ystod beichiogrwydd yn cynhyrchu wŷn â chronfeydd isel o fraster brown; a ddefnyddir yn benodol ar gyfer amddiffyn rhag hypothermia.



Ffigur 1. Gofynion egni ar gyfer mamogiaid beichiog 75kg â gefeilliad (Bwydo mamog i gael cynnych oes, 2014)

Agweddau i'w hystyried os yn gaeafu ar gyfer wyna

- Yn ystod beichiogrwydd hwyr, dylid cynyddu lwfans glaswellt a gwahanu'r mamogiaid sengl o'r mamogiaid sydd â mwy
- Yn ystod wyna, dylid stocio'r praidd gyda 10-17 mamog/ha
- Mae system pori cylchdro yn ddull effeithiol o wneud y mwyaf o dyfiant porfa
- Mae pori'r caeau wyna gorau cyn sganio yn caniatáu adferiad cyn i'r wyna ddechrau yn y gwanwyn.

Dadansoddiad Silwair

Argymhellir yn gryf y dylid cynnal dadansoddiad silwair wrth fwydo mamogiaid beichiog er mwyn sicrhau bod y mamogiaid yn derbyn maetholion priodol. Gweler isod rai ffigurau meincnodi ar gyfer silwair o ansawdd uchel ar gyfer mamogiaid cyn wyna.

Tabl 2. Enghraifft o ffigurau meincnodi ar gyfer silwair o ansawdd uchel ar gyfer mamogiaid cyn wyna

	Meincnod
% Mater Sych	>25
Gwerth D	>65
ME (MJ/kgDM)	>10.5
Protein Amrwd	>12
pH	>4.0
Ammonia fel % cyfanswm N	<10

Dwysedd Stocio

Dylid grwpio mamogiaid yn ddibynol ar canlyniad y sganio beichiogrwydd, BCS ac oed. Argymhellir i ystyried gwahanu mamogiaid hŷn o'r defaid blwyddi ac ŵyn benyw er mwyn osgoi bwlio. Ceir mwy o argymhellion ar ofod bwydo a dŵr mewn taflen wybodaeth blaenorol ['Cadw Mamogiaid Dan Do'](#).

Agweddau eraill i'w hystyried

Os yw'r cyfraddau sganio yn isel a bod ŵyn yn ymledu er gwaethaf cael sgoriau ennill a chyflwr pwysau byw da, gwnewch brofion porthiant, priddoedd a gwaed neu feinwe i nodi diffyg elfen hybrin bosibl. Gellir ymgymryd â phroffil metabolaid cyn wyna 4-6 wythnos cyn wyna a fydd yn nodi a yw lefelau egni'r mamogiaid yn ddigonol. Mynnwch air â'ch milfeddyg am hyn.

Dehongli canlyniadau elfennau hybrin

- Dangoswyd bod diffyg **cobalt** yn amharu ar ddatblygiad embryo
- Dangoswyd bod **seleniwm** isel a fitamin E yn cynyddu colled embryo wrth fewnblannu
- Gall diffyg **iodin** arwain at farw-enedigaethau
- Gall diffyg copr yng nghanol beichiogrwydd arwain at siglo mewn ŵyn